# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd Hydref 2019 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Dai Evans, Helen Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Denfer Morgan (Clerc).

**259 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies a Ray Williams, ynghyd a'r Cynghorydd Sir Marc Davies, am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**260 Datgelu Buddiannau**

Fe ddatgelodd y Cynghorydd Alwen Thomas buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod 264 isod ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth a'r pleidleisio ar y mater.

**261 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Medi 2019.

**262 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Cofnod 252a) – Damweiniau ar yr A482 Ciliau Aeron

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cyngor Sir fwrw ati'n ddi-oed i ddelio gyda'r broblem amlwg sydd ar y darn yma o'r A482, gan hefyd gofyn i'r Cyngor ystyried gosod arwyneb atal llithro ar yr heol.

b) Cofnod 258 d) Penderfyniad Cabinet Cyngor Sir Ceredigion i adeiladu ysgol ardal newydd ar safle ganolog yn Nyffryn Aeron: Gofynwyd i'r Clerc gadarnhau gyda'r Aelodau os cafodd yr Hysbysiad Statudol ei anfon i'r Cyngor ac a oedd angen anfon unrhyw sylwadau ymhellach ar y mater.

**263 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r anfoneb a dderbyniwyd oddi wrth y Crown Estate yn y swm o £50.

**264 Cais am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais am gyfraniad ariannol oddi wrth Gylch Meithrin Felin-fach ar ôl derbyn copi o'u cyfrifon ar gyfer 2018-19.

**PENDERFYNWYD** cyfrannu swm o £200 iddynt.

**265 Archwiliad Cyfrifon 2018-19**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar Archwiliad Cyfrifon 2018-19 a nodwyd yr argymhelliad fod yn rhaid i'r Cyngor fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Cyllidol diweddaraf.

**266 Diweddaru Cadwyn Cadeirydd y Cyngor**

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi llwyddo cael gafael ar gofnodion blaenorol cyfarfodydd y Cyngor a fyddai o gymorth i lunio rhestr o'r cyn-Gadeiryddion.

**267 Cais Cynllunio A190540 - Glanbran, Cilcennin.**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A190540 - Glanbran, Cilcennin. "Glamping site with 5 en-suite pods with associated access and parking".

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**268 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) Cyfeiriodd y Clerc at gais y Cyngor Sir mewn perthynas â gosod mainc ar lwybr Llanerchaeron. **PENDERFYNWYD** hysbysu'r Cyngor Sir mai yng Nghymuned Dyffryn Arth oedd y lleoliad a ofynwyd amdano.
b) Nodwyd y gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Cyngor Sir fod yr holl arwyddion ffyrdd a ofynwyd amdano wedi cael eu gosod y neu lle.
c) Gofynwyd i'r Clerc ddwyn i sylw'r Cyngor Sir unwaith yn rhagor cyflwr peryglus coeden fawr ar ymyl yr A482 yn y lleoliad a ddisgrifiwyd i'r Aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:00pm